**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

**National Assembly for Wales**
Cross Party Group on Hospices and Palliative Care

Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Tachwedd 2017

Annwyl Gyfaill

## Ymchwiliad ar anghydraddoldebau mewn mynediad at hosbisau a gofal lliniarol yng Nghymru: heriau a chyfleoedd

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol yn cynnal ymchwiliad i anghydraddoldebau mewn mynediad at hosbisau a gofal lliniarol yng Ngymru: heriau a cyfleoedd.

### Cylch gorchwyl:

Dyma gylch gorchwyl y Grŵp ar gyfer ei ymchwiliad:

- deall pa **ffactorau sy'n arwain at fynediad anghyfartal i hosbis a gofal lliniarol arbenigol ar gyfer poblogaeth Cymru,** gan ystyried dysgu a thystiolaeth o Gymru a'r DU;
- ystyried **pa gamau mae darparwyr gofal lliniarol a phartïon eraill yn eu cymryd ar hyn o bryd i wella mynediad** i ofal lliniarol arbenigol i holl aelodau eu poblogaethau;
- archwilio a deall y **rhwystrau** mae darparwyr gofal lliniarol a phartïon eraill yn eu hwynebu wrth wella mynediad at eu gwasanaethau;
- ystyried pa gamau cenedlaethol a lleol fyddai'n cefnogi gwella mynediad cyfartal i hosbis a gofal lliniarol yng Nghymru.

### Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Grŵp eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y pynciau hyn. Byddai'n ddefnyddio pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Gwener 15fed Rhagfyr 2017**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: c.edwards@hospiceuk.org

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

**National Assembly for Wales**
Cross Party Group on Hospices and Palliative Care

Bydd yr ymchwiliad yn gwahodd rhanddeiliaid allweddol i roi tystiolaeth ar lafar yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yng Ngwanwyn 2018.

## Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na 2,000 o eiriau. Gall gyfranwyr ddarparu tystiolaeth ychwanegol ar ffurf adroddiadau a chyhoeddiadau.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae'r Grŵp yn croesawu cynfraniadau yn y nail neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy.

## Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymchwiliad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:


Ysgrifennydd i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol
Dr Catrin Edwards
Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth
Hospice UK
Hosbis y Ddinas
Caerdydd
CF14 7BF
Ebost: c.edwards@hospiceuk.org
Ffôn: 07432 700 899


Yn gywir

Mark

Mark Isherwood AC

**Cadeirydd, Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarolf**